

E4. Hybu'r defnydd a wneir o dechnoleg yn eich sefydliad

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â'ch rôl wrth sicrhau bod y sefydliad yn cael y dechnoleg angenrheidiol ac yn ei defnyddio i'r eithaf. Gall technoleg olygu technoleg gwybodaeth neu gyfathrebu, offer, peiriannau ac ati. Nid yw o reidrwydd yn golygu defnyddio technoleg gymhleth neu'r ddyfais ddiweddaraf. Yn hytrach, mae'n ymwneud ag asesu'r defnydd a wneir o dechnoleg a gwella hwn. Gallai hynny olygu defnyddio'r hyn sydd eisoes ar waith yn well neu hyd yn oed symud i ateb technoleg is os yw hynny'n briodol.

Nid oes disgwyl i chi fod yn arbenigwr technoleg, ond byddai disgwyl i chi allu gweithio gydag arbenigwyr fel bo'n briodol.

At ddibenion yr uned hon, gall 'sefydliad' olygu endid hunangynhwysol fel cwmni sector preifat, elusen neu awdurdod lleol **neu** uned weithredu sylweddol ei maint, sydd ag ymreolaeth sylweddol, o fewn sefydliad mwy.

Ar gyfer pwy mae'r uned hon?

Argymhellir yr uned ar gyfer uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac unedau **B2. Mapio'r amgylchedd y mae'ch sefydliad yn gweithredu ynddo, B3. Datblygu cynllun busnes strategol ar gyfer eich sefydliad, B4. Rhoi'r cynllun busnes strategol ar waith a C3. Annog arloesedd yn eich sefydliad** yng nghyfes gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth hybu defnydd technoleg yn eich sefydliad. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Meddwl yn strategol
- Gofyn cwestiynau
- Cynnwys pobl eraill
- Cyfathrebu

- Datrys problemau
- Meddwl yn systematig
- Monitro
- Adrodd
- Bod â chynlluniau wrth gefn
- Ymgynghori
- Rheoli gwybodaeth
- Meincnodi
- Rhwydweithio
- Adolygu
- Cynllunio
- Arloesi
- Arweinyddiaeth

E4. Hybu'r defnydd a wneir o dechnoleg yn eich sefydliad

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Nodi'r dull(iau) o ymdrin â thechnoleg, a'r ffordd o'i defnyddio yn eich sefydliad ar hyn o bryd, ac unrhyw gynlluniau i waredu neu gyflwyno technoleg, neu ddefnyddio technoleg sydd eisoes yn bodoli at ddibenion gwahanol.
2. Ymgynghori â phobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw, a charfanau perthnasol eraill er mwyn nodi defnydd llwyddiannus o dechnoleg.
3. Ymgynghori â phobl berthnasol yn y sefydliad drwyddo draw, a charfanau perthnasol eraill er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer cyflwyno technoleg neu ddefnyddio technoleg sydd eisoes yn bodoli at ddibenion gwahanol.
4. Sicrhau bod gan y sefydliad strategaeth ar gyfer defnyddio technoleg a'i bod yn cydweddu i weledigaeth, gwerthoedd, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad.
5. Cyfleu'r strategaeth ar gyfer defnyddio technoleg yn y sefydliad drwyddo draw ac i garfanau eraill perthnasol.
6. Sicrhau mai anghenion cwsmeriaid sy'n pennu sut y bydd technoleg yn cael ei defnyddio.
7. Creu meincnodau sy'n nodi arfer da mewn perthynas â defnyddio technoleg, a'r gwersi hynny y gellir eu dysgu a'u defnyddio yn eich sefydliad.
8. Sefydlu systemau i fonitro gweithredu'r strategaeth ac i adrodd ar berfformiad cyffredinol y sefydliad o ran defnyddio technoleg.
9. Ceisio a defnyddio arbenigedd arbenigol i gynorthwyo â datblygu, gweithredu ac adolygu'r strategaeth ar gyfer defnyddio technoleg a monitro perfformiad cyffredinol y sefydliad.
10. Sicrhau bod adnoddau a chefnogaeth yn cael eu darparu yn y sefydliad drwyddo draw i alluogi cydweithwyr i ddefnyddio i'r eithaf y dechnoleg sydd ar gael.
11. Sicrhau bod gennych gynlluniau wrth gefn rhag ofn y bydd technoleg yn methu.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn mynd ati i herio'r sefyllfa sydd ohoni ac yn ceisio dod o hyd i well dewisiadau.
2. Byddwch yn cymryd cyfrifoldeb personol am wneud i bethau ddigwydd.
3. Byddwch yn rhagweld senarios tebygol y dyfodol ar sail dadansoddiad realistig o dueddiadau a datblygiadau.
4. Byddwch yn cyfleu'r rhagdybiaethau a lunnir a'r risgiau a allai godi wrth geisio deall sefyllfa.
5. Byddwch yn gwneud penderfyniadau prydlon a fydd yn realistig i'r sefyllfa.
6. Byddwch yn cydbwysu risgiau â'r buddiannau a allai ddeillio o gymryd risgiau.
7. Byddwch yn ceisio yn gyson i wella perfformiad.
8. Byddwch yn defnyddio arddulliau cyfathrebu sy'n briodol i wahanol bobl a gwahanol sefyllfaoedd.
9. Byddwch yn creu ymdeimlad o bwrpas cyffredin.

E4. Hybu'r defnydd a wneir o dechnoleg yn eich sefydliad

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Gwahanol fathau o dechnoleg
2. Sut i sicrhau'r wybodaeth ddiweddaraf am y datblygiadau allweddol ym maes technoleg
3. Y prif ffactorau i'w hystyried wrth asesu defnydd technoleg newydd, neu asesu cyflwyno technoleg newydd, gan gynnwys y costau llawn a'r buddiannau
4. Pwysigrwydd ymgynghori â chydweithwyr a charfanau perthnasol eraill ar dechnoleg
5. Yr hyn y dylai strategaeth effeithiol ar gyfer defnyddio technoleg ei gwmpasu
6. Pwysigrwydd bod â chynlluniau wrth gefn o ran cyflwyno neu barhau i ddefnyddio technoleg, a sut i wneud hyn yn effeithiol
7. Gwahanol dechnegau a dulliau ar gyfer cyfleu dull y sefydliad o ymdrin â defnyddio technoleg, a'i strategaeth ar ei chyfer
8. Sut i feincnodi modd eich sefydliad o ddefnyddio strategaeth o'i gymharu â sefydliadau eraill
9. Ffynonellau arbenigedd arbenigol o ran technoleg
10. Sut i sefydlu systemau ar gyfer adolygu gweithredu'r strategaeth ar gyfer defnyddio technoleg a nodi meysydd i'w gwella
11. Y math o adnoddau a chefnogaeth sy'n angenrheidiol er mwyn galluogi cydweithwyr i ddefnyddio i'r eithaf y dechnoleg sydd ar gael

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Tueddiadau a datblygiadau yn eich diwydiant/sector o ran technoleg
2. Y mathau o dechnoleg sydd ar gael yn eich diwydiant/sector a'u prif nodweddion, manteision ac anfanteision
3. Gofynion cyfreithiol, polisiau'r llywodraeth a chanllawiau'r diwydiant neu'r sector sy'n ymwneud â defnyddio technoleg
4. Cymelliannau neu gefnogaeth ariannol neu arall a allai fod ar gael ar gyfer buddsoddi mewn technoleg yn eich diwydiant/sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Y dull(iau) o ymdrin â defnyddio technoleg, a'r ffordd o'i defnyddio yn eich sefydliad ar hyn o bryd
2. Cynlluniau i waredu neu gyflwyno technoleg, neu ddefnyddio technoleg sydd eisoes yn bodoli at ddibenion gwahanol
3. Pwy y mae angen ymgynghori â nhw yn y sefydliad drwyddo draw o ran technoleg
4. Carfanau perthnasol eraill sydd â budd o'r ffordd y bydd eich sefydliad yn defnyddio technoleg
5. Gweledigaeth, gwerthoedd, amcanion a chynlluniau cyffredinol y sefydliad
6. Strategaeth benodol eich sefydliad sy'n ymwneud â defnyddio technoleg, gan gynnwys cynlluniau wrth gefn
7. Anghenion eich cwsmeriaid
8. Rôl technoleg yn niwylliant eich sefydliad a sut i adeiladu ar hyn
9. Systemau ar waith ar gyfer monitro effeithiol ac adrodd ar y modd o ddefnyddio technoleg
10. Y sefydliadau hynny sy'n debyg i'ch un chi, a'r dechnoleg maen nhw'n ei defnyddio
11. Yr arbenigwyr a all gynghori eich sefydliad ar ddefnyddio technoleg
12. Pa dechnoleg y mae'ch sefydliad eisoes wedi rhoi cynnig arni, a'r canlyniadau